Planning Pembrokeshire's Future
Local Development Plan
Cynllun Datblygu Lleol
Cynllunio Dyfodol Sir Benfro

# Cynllun Datblygu Lleol 2 (2017 – 2033)

# Adborth ysgrifenedig gan y cyhoedd ar yr Ymgynghoriad Opsiynau Strategol: Ymgynghoriad Anffurfiol ar y Materion, Gweledigaeth ac Amcanion Drafft

16 Gorffennaf – 10 Medi 2018

# Cynnwys


....... 1

Byrfoddau....... **Error! Bookmark not defined.**

Rhestr Termau....... 3

**Cyflwyniad** ....... 5

*Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol* ....... 5

*Ymgynghoriad ar yr Opsiynau Strategol* ....... **Error! Bookmark not defined.**

*Gweithdai gyda Rhanddeiliaid, Aelodau a Chynghorau Tref a Chymuned* ....... 5

*Camau nesaf* ....... 5

Tabl 1: Adborth o'r Ymgynghoriad Ysgrifenedig Anffurfiol ar Faterion, Gweledigaeth ac Amcanion Drafft....... 6

## Byrfoddau

| | |
|---|---|
| CDUSB | Cydgynllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro 2000-2016 |
| CDLl / CDLl (2) | Cynllun Datblygu Lleol / Cynllun Datblygu Lleol (2) |
| ACLl | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| CSP | Cyngor Sir Penfro |
| LlC | Llywodraeth Cymru |

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Mabwysiadwyd | Mabwysiadir y Cynllun Datblygu Lleol pan fydd Cyfarfod Cyngor yr Awdurdod yn penderfynu mai hwn fydd y Cynllun Datblygu ar gyfer y Sir ac y bydd yn disodli'r Cynllun Datblygu presennol. |
| Tai Fforddiadwy | Datblygiad preswyl o dai i'w gwerthu neu eu rhentu yn is na phrisiau'r farchnad a'u cadw fel rhai fforddiadwy yn barhaus |
| Dyraniad Tai Fforddiadwy | Tir a neilltuwyd ar gyfer tai fforddiadwy, naill ai i berchnogion cartrefi am bris isel neu i'w rhentu. |
| Argaeledd a'r modd y gellir cyflenwi tir | Mae'r tir sydd ar gael yn cynnwys tirfeddiannwr sy'n fodlon datblygu neu werthu tir i'w ddatblygu. Mae'r 'modd y gellir cyflenwi tir' yn ymwneud â hyfywedd economaidd dod â safle ymlaen |
| Cefn Gwlad | Tir y tu allan i aneddiadau a nodwyd yn yr Hierarchaeth Aneddiadau |
| Cynllun Adnau | Drafft llawn o'r Cynllun sydd ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod y Cyfnod Adneuo. |
| Dyraniad Tai | Safleoedd datblygu preswyl ar gyfer o leiaf 5 uned ac a ddangosir yn y Cynllun Datblygu |
| Seilwaith | Mae seilwaith yn cwmpasu cyflenwadau pŵer, cyflenwad dŵr, dulliau o waredu carthffosiaeth neu ddŵr wyneb, ffyrdd a rhwydweithiau trafnidiaeth eraill, telathrebu a chyfleusterau sy'n ofynnol fel fframwaith ar gyfer datblygu. |
| Tai i'r Farchnad | Tai ar werth am brisiau'r farchnad (gall hyn gynnwys hunan-adeiladu neu dai a adeiladir yn ôl y gofyn). |
| Mewnlenwi a thalgrynnu | Dyma pan fo datblygiadau tai yn digwydd mewn lleoliad lle nad oes ffin aneddiadau. Mewn lleoliadau o'r fath, efallai y bydd tai newydd yn cael eu caniatáu lle mae hyn rhwng y bylchau presennol o eiddo 'mewnlenwi' neu lle mae'n 'talgrynnu' ymyl anheddiad. |
| 'Cynllunio trwy Apêl' | Cynigion datblygu ad hoc a ddaw ymlaen yn absenoldeb strategaeth ddatblygu i arwain datblygiad |
| Yr Opsiwn a Ffafrir | Yr opsiwn unigol neu'r opsiwn hybrid sy'n deillio o ystyried ystod o opsiynau neu faterion yn dilyn ymgynghori. |

| | |
|---|---|
| Strategaeth a Ffafrir | Y ddogfen strategaeth ffurfiol gyntaf ar gyfer adolygu'r CDLl sy'n nodi'r fframwaith a'r polisïau cyffredinol a fydd yn arwain y polisïau a'r cynigion sy'n ymwneud â defnydd tir. |
| Adroddiad Adolygu | Yn nodi beth sydd angen ei newid a pham yn y CDLl. |
| Ffin yr Anheddiad | Mae ffin anheddiad yn offeryn cynllunio sy'n cynnwys llinell ddamcaniaethol wedi'i thynnu ar fap i nodi ffin anheddiad. Fel arfer ni chaniateir datblygiad tai oni bai ei fod o fewn y ffin hon ac ystyrir bod ardaloedd y tu allan iddi yn gefn gwlad. |
| Hierarchaeth Aneddiadau | Dosbarthir aneddiadau o fewn yr hierarchaeth yn ôl poblogaeth a lefel y gwasanaethau yn yr anheddiad. Bydd rhai aneddiadau bach iawn sydd â gwasanaethau cyfyngedig iawn neu ddim gwasanaethau o gwbl yn syrthio y tu allan i'r hierarchaeth ac fe'u diffinnir fel cefn gwlad. |
| Hunan-adeiladu / adeiladu tai yn ôl y gofyn | Datblygiad tai pwrpasol wedi'i gomisiynu a'i reoli gan y meddiannydd bwriedig. Ym mhob achos p'un a yw cartref yn un wedi ei hunan-adeiladu neu ei adeiladu yn ôl y gofyn, bydd perchennog cychwynnol y cartref yn rhoi mewnbwn sylfaenol i'w ddyluniad a'i gynllun terfynol. |

# Cyflwyniad

## *Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol*

Mae Cyngor Sir Penfro yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd (CDLl) – **Cynllun Datblygu Lleol 2**. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd yn darparu fframwaith polisi diwygiedig ac wedi'i ddiweddaru i arwain datblygu y tu allan i'r Parc Cenedlaethol a bod yn sail i benderfyniadau cynllunio a wneir gan y Cyngor Sir. Yn ystod yr **Adolygiad,** bydd y Cynllun Datblygu Lleol presennol (hyd at 2021) yn parhau yn ei le nes mabwysiadir Cynllun Datblygu Lleol 2 (CDLl2).

## *Ymgynghoriad ar yr Opsiynau Strategol*

Yn ystod y cyfnod rhwng 16 Gorffennaf a 10 Medi 2018, cynhaliodd Cyngor Sir Penfro ymgynghoriad cyhoeddus anffurfiol ar **Opsiynau Strategol** ar gyfer LDP 2. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, cyhoeddwyd dau bapur, sef un ar **Faterion, Gweledigaeth ac Amcanion Drafft** ac un ar **Opsiynau Tai Strategol**. Roedd yr ail bapur, **Opsiynau Tai Strategol,** yn nodi senarios amrywiol ar gyfer lefelau twf tai yn y dyfodol ac opsiynau bras ar gyfer lleoliadau/polisi i'w hystyried er mwyn bodloni'r twf hwn. Roedd y ddwy ddogfen ar gael ar wefan y Cyngor ac mewn llyfrgelloedd a chanolfannau cyswllt. Cafodd pawb a ddangosodd ddiddordeb yn y CDLl wybod am yr ymgynghoriad anffurfiol. Mae'r tablau isod yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd i ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus anffurfiol hwn, a'r newidiadau y mae'r Cyngor yn eu cynnig i'r Strategaeth a Ffafrir o ganlyniad i hynny.

## *Gweithdai gyda Rhanddeiliaid, Aelodau a Chynghorau Tref a Chymuned*

Yn ogystal ag ymgynghoriad ysgrifenedig anffurfiol, cynhaliodd Cyngor Sir Penfro nifer o **weithdai ymgysylltu** gyda Rhanddeiliaid, Aelodau a Chynghorau Tref a Chymuned ym mis Gorffennaf 2018. Roedd y gweithdai hyn yn canolbwyntio ar yr **Opsiynau Tai Strategol**. Rhoddir crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd yn y gweithdai hyn mewn dogfen ar wahân, sef **"Adborth y Gweithdai gyda Rhanddeiliaid, Aelodau a Chynghorau Tref a Chymuned ar yr Ymgynghoriad Opsiynau Strategol"**.

## *Camau nesaf*

Bydd yr adborth a dderbyniwyd trwy'r ymgynghoriad ysgrifenedig anffurfiol ac yn y gweithdai gyda Rhanddeiliaid, Aelodau a Chynghorau Tref a Chymuned yn cael eu hystyried a'u cyflwyno wrth ddatblygu **Strategaeth a Ffafrir** y CDLl 2. Mae Cyngor Sir Penfro yn disgwyl cyhoeddi ei **Strategaeth a Ffafrir** i'w ymgynghori'n gyhoeddus yn ffurfiol ym mis Rhagfyr 2018.

## Tabl 1: Adborth o’r Ymgynghoriad Ysgrifenedig Anffurfiol ar Faterion, Gweledigaeth ac Amcanion Drafft

| **Atebydd** | **Ymateb i Gwestiynau’r Ymgynghoriad** |
|---|---|
| | **Cwestiwn 1: A ydych chi’n cytuno â’r Materion a nodwyd?**<br>**Cwestiwn 2: A oes unrhyw newidiadau y byddech yn eu cynnig i’r Materion a nodwyd?** |
| **Cyfoeth Naturiol Cymru (Louise Edwards)** | Mae’r materion yn cael eu nodi dan bedair blaenoriaeth Cynllun Llesiant Sir Benfro, ac rydym yn croesawu hyn. Rydym yn cytuno â’r materion a amlygwyd, yn enwedig ‘diogelu’r amgylchedd’. |
| **Cyngor Cymuned Nolton a’r Garn** | Ydyn – Ni chynigir newidiadau. |
| **Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (Mark Harris)** | O ran y materion tai a amlygwyd dan ‘Byw a gweithio’, mae’r Ffederasiwn yn nodi y defnyddir ffigyrau manylion ar gyfer gofynion tai fforddiadwy, ond nid ydyn nhw’n cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw un o’r pwyntiau eraill yn ymwneud â thai. Ystyrir bod y neges gyffredinol a gyflwynir gan y pwyntiau yn ddryslyd, gan eu bod nhw’n amlygu sawl mater sy’n gwrthddweud ei gilydd.<br>Nid yw’r Ffederasiwn yn ystyried bod angen cyfeirio at Gynllun Gofodol Cymru, oherwydd er nad yw wedi cael ei ddisodli gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol eto, mae’n amlwg ei fod wedi dod i ben ac nid yw’n berthnasol mwyach wrth gynhyrchu polisïau cynllunio ar gyfer y dyfodol. Dylid egluro ei statws, o leiaf. |
| **Bourne Leisure (Helen Ashby Ridgway Lichfields)** | Ydyn.<br>Mae dogfen ymgynghorol y Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion yn amlygu’r canlynol fel mater allweddol ar dudalen 10:<br>*“Mae llety i dwristiaid yn newid, ac mae angen inni ystyried hyn, gan gynnwys lle y gellir lleoli neu ymestyn safleoedd newydd.”*<br>Mae Bourne Leisure yn croesawu’r gydnabyddiaeth bod y sector llety twristiaid yn newid, ac y dylid ystyried hyn yn y Cynllun Datblygu |

| | |
|---|---|
| | Lleol sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys mewn perthynas â *"lle y gellir lleoli neu ymestyn safleoedd newydd"*.<br>Mae pobl sy'n mynd ar wyliau yn chwilio am amrywiaeth ehangach o fathau o lety, ac mae'n bwysig darparu ar gyfer arallgyfeirio llety twristiaid er mwyn cynnal a chyfrannu at dwf y diwydiant twristiaeth yn Sir Benfro. |
| **Dilys Burrell (Cynghorydd Tref Doc Penfro, ond mewn cyd-destun personol)** | Ydw. Yn fy marn i, mae'r tîm blaengynllunio wedi llwyddo i amlygu'r materion sy'n effeithio ar ein sir, ac maen nhw wedi ysgrifennu hyn a'r papur opsiynau tai strategol mewn ffordd glir, gryno a dealladwy. Hefyd, mae'r papurau i'w gweld yn cynnig ymgynghori gwirioneddol, o ran gosod cwestiynau go iawn am y dulliau i'w defnyddio ac mae'n ymddangos eu bod nhw'n dangos diddordeb gwirioneddol yn ein hatebion. Felly diolch am hynny!<br>Yr unig newid yr hoffwn ei gynnig yw sicrhau bod llwybrau cerdded a seiclo'n cael eu diogelu a'u gwella. Efallai bod hyn yn rhan o seilwaith gwyrdd, ond dw i ddim yn siŵr am hynny. Byddai'n ddefnyddiol cynnwys diffiniad o seilwaith gwyrdd, ac ynni gwyrdd a glas yn y rhestr termau. |
| **Yr Awdurdod Glo** | Fel y gwyddoch chi, mae etifeddiaeth y diwydiant glo yn sylweddol yn ardal Cyngor Sir Penfro, ac mae angen ei ystyried fel rhan o'r cynigion datblygu.<br><br>Nid oes gan yr Awdurdod Glo sylwadau penodol i'w gwneud o ran y cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad; fodd bynnag, byddem yn disgwyl i'r data y gellir ei lawrlwytho yr ydym yn ei ddarparu i'r Cyngor o ran Risg y Datblygu a chynlluniau Adnoddau Glo Arwyneb yn cael ei ddefnyddio i asesu unrhyw safleoedd datblygu a gynigir i'w cynnwys yn y cynllun. |

| | |
|---|---|
| **Network Rail (Lisa Bullock)** | Rydym ni'n cytuno bod darpariaeth seilwaith briodol, sy'n cynnwys seilwaith rheilffordd, yn fater allweddol ac felly rydym ni'n falch o weld hyn wedi'i restru ym mhwynt bwled 12, dan y pennawd 'Byw a Gweithio'.<br><br>Dylai unrhyw bolisïau datblygu yn y dyfodol sicrhau bod y datblygwyr yn ymgysylltu â'r cyrff perthnasol yn y camau cynnar, gan gynnwys Network Rail, a'u bod yn asesu ac yn darparu unrhyw welliannau angenrheidiol i groesfannau rheilffordd lle gallai'r datblygiad arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y cerddwyr/cerbydau sy'n defnyddio croesfan rheilffordd, trwy ymgynghori â Network Rail.<br><br>Hefyd, pan fydd y Cyngor yn asesu safleoedd posibl i'w dyrannu, dylai'r Cyngor ystyried unrhyw effaith niweidiol bosibl i'r rheilffordd fel rhan o'r profion hyfywedd y mae'n eu cynnal, oherwydd gallai hyn effeithio ar a ellir cyflwyno ar y safle, sy'n cael effaith niweidiol ar y seilwaith rheilffordd. Dylid gwrthod unrhyw ddatblygiad a fyddai'n arwain at gynnydd neu newid sylweddol yn natur y traffig sy'n defnyddio croesfan rheilffordd oni bai y gellir dangos, gan ymgynghori â Network Rail, na fydd yn peryglu diogelwch, neu os byddai'n peryglu diogelwch, byddai mesurau lliniaru difrifol yn cael eu hymgorffori i atal unrhyw risg diogelwch cynyddol fel gofyniad ar gyfer unrhyw ganiatâd.<br><br>Mae Network Rail yn sefydliad a ariennir yn gyhoeddus, gyda chylch gwaith wedi'i reoleiddio, felly ni fyddai'n rhesymol gofyn i Network Rail ariannu gwelliannau rheilffordd sydd eu hangen oherwydd datblygiadau masnachol. Felly, byddai'n briodol gofyn am gyfraniadau gan ddatblygwyr i ariannu gwelliannau o'r fath. |

| | |
|---|---|
| | Network Rail sy'n berchen, gweithredu, cynnal ac yn datblygu'r brif rwydwaith rheilffordd. Mae hyn yn cynnwys cledrau, gorsafoedd, systemau signal, pontydd, twneli, croesfannau a thraphontydd rheilffordd. Mae paratoi polisi cynllun datblygu yn bwysig o ran diogelu ac ymestyn seilwaith Network Rail.<br><br>Gobeithiwn y bydd y sylwadau hyn yn cael eu hystyried wrth i chi baratoi'r dogfennau Cynllun Datblygu Lleol sydd i ddod. |
| **Jason Evans** | Ydw – ni chynigir newidiadau. |
| **Yr Ymddiriedolaeth Theatrau (Tom Clarke)** | Ydyn, ac rydym yn ystyried y gallai dull diwygiedig o fynd i'r afael â'r natur wledig gynnwys hyrwyddo ffyrdd mwy amrywiol o ddefnyddio canol y dref, gan gynnwys cyfleusterau diwylliannol. |
| **Y Grid Cenedlaethol** | Nid oes gennym ni unrhyw sylwadau sy'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn. |
| **Dŵr Cymru (Ryan Norman)** | Rydym yn cefnogi'r Materion, Gweledigaeth ac Amcanion, yn enwedig Amcan Drafft 2.3 I) sy'n ceisio sicrhau bod seilwaith yn cael ei wella yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau cynaliadwy. Fodd bynnag, byddem yn awgrymu ychwanegu un mater arall at y maes pwnc *'Diogelu ein Hamgylchedd'*:<br>***"Bydd datblygu yn dderbyniol dim ond os bydd rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus ar gael a digon o gapasiti gan y gwaith trin dŵr gwastraff i sicrhau nad oes niwed i'r amgylchedd"***<br><br>Rydym ni wedi croesawu'r ymgysylltiad yn y broses CDLl2 hyd yma ac rydym wedi eich cynghori ynghylch capasiti ein seilwaith er mwyn helpu'r ACLl i gynnal yr asesiadau angenrheidiol; byddwn yn parhau i ddiweddaru'r ACLl ynghylch capasiti'r seilwaith trwy gydol y broses CDLl2, ond rydym yn teimlo y byddai ychwanegu'r mater hwn yn |

| | |
|---|---|
| | pwysleisio bod angen sicrhau bod y datblygiad yn cael ei arwain tuag at leoliadau lle mae digon o gapasiti ar gael. |
| **Jim a Penny Chesters** | Cytuno ar y cyfan gyda'r rhan fwyaf o faterion a amlygwyd.<br>Byddem yn awgrymu bod angen dileu'r mater allweddol dan Byw a Gweithio, sef "Mae angen defnyddio synnwyr cyffredin wrth ymdrin â ffiniau aneddiadau"<br><br>Mae'r datganiad yn un cyffredinol a niwlog a allai gael ei ddefnyddio i osgoi rheoliadau cynllunio ac ati a thanseilio'r CDLl.<br>Mae hefyd yn gwrth-ddweud y materion allweddol ynghylch diogelu'r amgylchedd yn enwedig Mannau Agored a Seilwaith Gwyrdd a Gwarchod yr amgylchedd.<br>Hefyd, byddai'r datganiad yn sarhad ar bawb sydd wedi cymryd rhan yn y broses CDLl yn y gorffennol, ac mae'n codi cwestiynau ynghylch 'synnwyr cyffredin' pwy fyddai'n cael ei ddefnyddio. |
| **Angela Lebrovic** | Ydw, rwy'n cytuno â'r materion a nodwyd. Ni chynigir newidiadau. |
| **Cyngor Cymuned Mathri** | Ydyn, rydyn ni'n cytuno â'r materion a nodwyd. Ni chynigir newidiadau. |

**Casgliadau:**

Mae'n ymddangos bod pobl yn cefnogi'r Materion Drafft a nodwyd ar y cyfan. Er bod Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi yn nodi bod rhai o'r materion hyn yn gwrth-ddweud ei gilydd, mae hyn yn adlewyrchu'r realiti bod angen i'r Cynllun fynd i'r afael â materion sy'n gwrthdaro. Ceir rhywfaint o ailadrodd yn yr adran Materion, fodd bynnag, a bydd hyn yn cael ei ddileu, a byddwn yn symleiddio'r adran ar y cyfan. O ran y cyfeiriad at Gynllun Gofodol Cymru, ni chyfeirir at y ddogfen yn y Materion, ond caiff ei nodi fel dylanwad ar y Weledigaeth. **Gweithred: Symleiddio'r Materion. Gweithred: Bydd y cyfeiriad at Gynllun Gofodol Cymru'n cael ei gynnwys yn y Strategaeth a Ffafrir. Nodi cyfeiriad y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi at ffigyrau manwl ar Dai Fforddiadwy. Rydym yn cytuno bod angen ehangu'r cyfeiriad hwn, gan y bydd Dadansoddiad o Farchnadoedd Tai Lleol diwygiedig yn cael ei gynhyrchu cyn paratoi'r Cynllun Adneuo a gall y ffigyrau newid.**
Bydd gwelliannau cerdded a seiclo'n cael eu hystyried dan y pennawd 'Seilwaith Gwyrdd'. **Gweithred: Cynigir diwygiad i'r Rhestr Termau er mwyn egluro hyn. Cynigir rhoi eglurhad o'r termau 'Ynni gwyrdd a glas' hefyd.**
Defnyddir cynlluniau Risg y Datblygu ac Adnoddau Glo Arwyneb er mwyn asesu unrhyw safleoedd datblygu y cynigir eu cynnwys yn y cynllun

| | |
|---|---|
| – bydd hyn yn digwydd mewn cam diweddarach yn y broses o baratoi'r cynllun.<br>Rydym wedi nodi sylwadau Dŵr Cymru ar yr adran diogelu'r amgylchedd. **Gweithred: Dan y pennawd Diogelu ein Amgylchedd, dylem nodi Mater newydd**: ***"Gall cyfeirio'r datblygiad i leoliadau sydd â rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus ar gael a digon o gapasiti gan y gwaith trin dŵr gwastraff helpu i ddiogelu'r amgylchedd"***. Cytuno i ddileu'r cyfeiriad at "Mae angen defnyddio synnwyr cyffredin wrth ymdrin â ffiniau aneddiadau" gan fod hwn yn ddull polisi yn hytrach na mater allweddol y dylai'r Cynllun fynd i'r afael ag ef. | |
| | **Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno gyda'r Weledigaeth Ddrafft ar gyfer y CDLl Newydd 2017 – 2033?**<br>**Cwestiwn 4: A oes unrhyw newidiadau yr hoffech eu gweld yn y Weledigaeth Ddrafft?** |
| **Cyfoeth Naturiol Cymru (Louise Edwards)** | Rydym ni'n cytuno gyda'r Weledigaeth Ddrafft ar gyfer y CDLl Newydd. |
| **Cyngor Cymuned Nolton a'r Garn** | **Ydyn**. Er mwyn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a phwyslais y Ddeddf ar 'genedlaethau'r dyfodol', mae sicrhau buddsoddiad yn y system addysg a PHOB ysgol yn y sir a gofalu amdanynt yn hollbwysig i lwyddiant y weledigaeth a mynd i'r afael â'r materion a godwyd. Yn enwedig addysg chweched dosbarth mewn ardaloedd datblygedig/gwledig y tu allan i'r trefi mwyaf ond sydd â dalgylch iach neu sydd â photensial mawr. Mae sefyllfa ariannol bresennol Ysgol Gynradd y Garn ar hyn o bryd yn golygu bod angen uno dosbarthiadau ac oedrannau gan nad oes digon o arian ganddyn nhw ar gyfer yr athrawon angenrheidiol, ac maen nhw'n dibynnu ar bob ceiniog sy'n cael ei chodi gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Ni ddylai hyn fod yn digwydd yn 2018. Mae addysg a'n plant yn gwbl allweddol i'r 50 mlynedd nesaf a'r cynaliadwyedd a'r cydnerthedd sydd eu hangen arnom. Mae gwrando ar ein pobl ifanc a buddsoddi yn eu haddysg yn un o'n prif ffocysau a dylai fod yn rhan o'r materion allweddol / y weledigaeth. |

| | |
|---|---|
| **Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (Mark Harris)** | Mae'r Ffederasiwn yn ystyried bod y Weledigaeth yn llawer rhy hir ac amleiriog ac yn mynd i lawer gormod o fanylion, ond nid yw materion yn ymwneud â thai yn cael llawer o sylw o gwbl. |
| **Bourne Leisure (Helen Ashby Ridgway Lichfields)** | Ydyn.<br>Mae'r Weledigaeth Ddrafft ar gyfer y CDLl Newydd ar dudalen 11 y ddogfen ymgynghori'r cynnwys y datganiad canlynol:<br>*"Hyrwyddir cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â busnesau newydd, twristiaeth, arallgyfeirio gwledig, y diwydiant ynni gwyrdd a glas a sectorau newydd sy'n gysylltiedig â'r cyfleoedd strategol a ddarperir gan Ddyfrfffordd Aberdaugleddau a chysylltiadau ag Iwerddon."*<br>Mae Bourne Leisure yn cymeradwyo'r hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth a gynigir sy'n ymwneud â thwristiaeth o fewn y Weledigaeth Ddrafft ar gyfer y CDLl Newydd sy'n dod i'r amlwg.<br>Mae Polisi Cynllunio Cymru (argraffiad 9) yn nodi ym mharagraff 11.1.1 bod twristiaeth yn hanfodol i ffyniant economaidd a chreu swyddi mewn sawl rhan o Gymru. Mae hyn yn sicr yn wir yn Sir Benfro, fel y nodir ym mharagraff 3.16 yn y CDLl a fabwysiadir, sy'n datgan mai'r diwydiant twristiaeth yw'r diwydiant a'r cyflogwr mwyaf yn y sir. Felly,mae Bourne Leisure yn ystyried ei fod yn bwysig bod y Weledigaeth Ddrafft ar gyfer y CDLl Newydd yn darparu cymorth ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. |
| **Dilys Burrell (Cynghorydd Tref Doc Penfro ond mewn cyd-destun personol)** | Ydw, cyhyd â bod y seilwaith gwyrdd yn cynnwys llwybrau cerdded a seiclo. Rwy'n arbennig o falch o weld canol trefi bywiog a chreu lleoedd yn rhan o'r weledigaeth.<br>Na, cyhyd â bod y seilwaith gwyrdd yn cynnwys llwybrau cerdded a seiclo. |

| | |
|---|---|
| **Jason Evans** | Ydw yn gyffredinol – ni chynigir newidiadau. |
| **APCAP (Martina Dunne)** | Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Weledigaeth yn darparu rhywfaint o syniad ynghylch ble mae ffocws y datblygu. Rwy'n deall nad yw hyn yn bosibl ar hyn o bryd.<br>Bydd angen esbonio cyfeiriadau at faterion fel 'ynni gwyrdd a glas' – rhestr termau.<br>Awgrymu cynnwys datganiad ynghylch 'newid yn yr hinsawdd' a'r 'tirlun'. |
| **Jim a Penny Chesters** | Ydyn<br>Hoffem weld rhagor o gyfeiriadau at dirlun unigryw ein sir a'n dyletswydd i'w gadw. |
| **Martin Bell** | Gweledigaeth Ddrafft. Mae'r Weledigaeth Ddrafft yn rhy hir.<br>Gallai Elfen 1 ddweud "*Yn 2033 mae Sir Benfro yn lle sydd â chymunedau ffyniannus cryf*".<br>Nid oes angen ychwanegu "*lle mae heriau'r natur wledig yn cael eu trin yn llwyddiannus*" oherwydd ei fod yn gwanhau gweledigaeth gyffredinol ac yn rhannu ardaloedd gwledig a threfol lle ceir problemau gwahanol a chyfartal.<br>"*Cefnogir cymunedau gwledig i ymdrin ag arferion amaethyddol sy'n newid*". Mae yna sawl broblem fawr arall mewn cymunedau gwledig yn ymwneud â lefelau darpariaeth gwasanaethau yn dirywio gan lywodraeth leol a chanolog a gan gwmnïau'r sector preifat, llai o drafnidiaeth gyhoeddus, poblogaeth sy'n heneiddio sy'n colli eu gallu i yrru eu cerbydau eu hunain a thwf ail gartrefi. Ceir sôn am Swyddog Unigrwydd /'Loneliness Czar' a phryderon ynghylch Llesiant, a bydd y ddau o'r rhain yn fwy perthnasol mewn cymunedau gwledig sydd â phoblogaeth sy'n heneiddio a lle mae gwasanaethau'n cael eu terfynu ac ati.<br>Byddwn hefyd yn awgrymu bod arferion amaethyddol sy'n newid |

| | |
|---|---|
| | wedi bod yn nodwedd o ardaloedd gwledig yn y 30 blynedd diwethaf o leiaf ac wedi eu cwblhau gan mwyaf o ran gostwng lefelau cyflogaeth, ac felly nid dyma'r prif ysgogwr newid mwyach. |
| **Angela Lebrovic** | Cytuno gyda'r Weledigaeth Ddrafft – ni chynigir newidiadau. |
| **Cyngor Cymuned Mathri** | Cytuno gyda'r Weledigaeth Ddrafft – ni chynigir newidiadau. |
| **Casgliadau:**<br><br>**Gweithred: Cyflwyno cyfeiriadau at y tirlun a newid yn yr hinsawdd. Gweithred: Ychwanegu cyfeiriadau at y seilwaith i gefnogi'r datblygu. Gweithred: Ystyried cynnwys rhagor o fanylion am leoliadau yn y Cam Adneuo, ar ôl yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir.** | |
| | **Cwestiwn 5: A ydych chi'n cytuno â'r Amcanion Drafft ar gyfer y CDLl Newydd 2017-2033?**<br>**Cwestiwn 6: A oes unrhyw newidiadau yr hoffech eu gweld i'r Amcanion Drafft?** |
| **Cyfoeth Naturiol Cymru (Louise Edwards)** | Nid yw'r Amcanion yn gwneud digon i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei warchod a/neu wella, o ran rhywogaethau a'u cynefinoedd ac felly nid yw'n adlewyrchu'r Weledigaeth sy'n nodi bod "Seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth yn cael eu gwella". Rydym ni'n cytuno y dylid cynnwys amcan ar gyfer seilwaith gwyrdd, ond nid yw'n mynd i'r afael â'r materion uchod. Hefyd, mae Amcan J yn nodi "gwarchod tirwedd ac amgylchedd y Sir", ac mae hyn yn rhy fras. Rydym yn awgrymu cynnwys amcan sy'n cwmpasu'r amgylchedd, bioamrywiaeth, rhywogaethau a'u cynefinoedd, yn hytrach na chynnwys yr amgylchedd gyda'r tirlun. |
| **Cyngor Cymuned Nolton a'r Garn** | Oes – Dylid cynnwys amcan i sicrhau buddsoddiad mewn addysg a'i wneud yn flaenoriaeth, yn ogystal ag amcan i ymdrechu i wella mynediad i wasanaethau a seilwaith cefn gwlad Sir Benfro, gan gynnwys technoleg band eang. |

| | |
|---|---|
| **Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (Mark Harris)** | Byddai'r Ffederasiwn yn cwestiynu geiriad Amcan D lle mae'n nodi 'Cynnal cymunedau dyfeisgar' – dylid esbonio hyn neu ei ailysgrifennu gan ddefnyddio geiriau mwy cyffredin. |
| **Bourne Leisure (Helen Ashby Ridgway Lichfields)** | Ydw.<br>Mae dogfen ymgynghori'r Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion yn cynnwys yr amcan drafft canlynol ar dudalen 14:<br>*"C) Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol trwy gefnogi busnesau sy'n cychwyn, arallgyfeirio gwledig, arferion amaethyddol sy'n newid, yr economi ymwelwyr, ac ehangu mentrau bach a chanolig."*<br>Mae Bourne Leisure yn cymeradwyo Amcan Drafft C, sy'n ceisio cynnal a gwella'r economi wledig a threfol trwy, ymysg pethau eraill, gefnogi economi ymwelwyr.<br>Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) (argraffiad 9) yn nodi ym mharagraff 11.1.1 bod twristiaeth yn hanfodol i ffyniant economaidd a chreu swyddi mewn sawl ardal yng Nghymru. Mae hefyd yn datgan ym mharagraff 11.1.7 bod datblygiadau yn ymwneud â thwristiaeth mewn ardaloedd gwledig yn *"elfen hanfodol o ddarparu ar gyfer economi iach ac amrywiol, a hynny yn lleol a chenedlaethol"*. Mae hyn yn sicr yn wir yn Sir Benfro, fel y nodir ym mharagraff 3.16 yn y CDLl a fabwysiadwyd, sy'n datgan mai'r diwydiant twristiaeth yw'r diwydiant a'r cyflogwr mwyaf yn y sir. Felly, mae Bourne Leisure yn ystyried bod rhaid i'r Amcanion Drafft ar gyfer y CDLl Newydd ddarparu cymorth ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.<br>Mae Amcan Drafft C hefyd yn adlewyrchu'r Weledigaeth Ddrafft mewn ffordd briodol, sy'n cynnwys y cynnig i hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. |
| **Dilys Burrell (Cynghorydd Tref Doc Penfro ond mewn cyd-destun** | Ydw, cyhyd â bod y seilwaith gwyrdd yn cynnwys llwybrau cerdded a |

| | |
|---|---|
| **personol)** | seiclo. Rwy'n arbennig o falch o weld adfer canol trefi a chreu lleoedd yn rhan o'r amcanion, yn ogystal â chefnogi busnesau newydd a busnesau bach a chanolig.<br>Na, cyhyd â bod y seilwaith gwyrdd yn cynnwys llwybrau cerdded a seiclo. |
| **Jason Evans** | Ydw ar y cyfan. Ni chynigir newidiadau. |
| **Yr Ymddiriedolaeth Theatrau (Tom Clarke)** | Ydw – yn enwedig hyrwyddo defnyddio canol trefi mewn ffyrdd amrywiol. |
| **APCAP (Martina Dunne)** | - Amcan B) Mae'r materion i'w hystyried er mwyn cyflawni dyluniad cynaliadwy yn cael eu cyfyngu i faterion treftadaeth hanesyddol yn unig. Efallai byddai'n ddefnyddiol ystyried materion fel tirlun a threflun ac ati.<br>- Amcan D) Efallai bod y gair 'dyfeisgar' yn awgrymu nad yw rhai cymunedau yn y Sir yn ddyfeisgar? Bydd angen ailymweld â'r amcan hwn pan gaiff dull cytunedig o ddatblygu tai ei gwblhau.<br>- Amcan E – Mae porthladdoedd yn datblygu – ni fydd y diwydiant petrocemegol yn parhau am byth.<br>- A oes angen cyfeirio at gynnal cyfleusterau cymunedol? |
| **Jim a Penny Chesters** | Byddem yn dymuno gweld 2.3 D) yn cael ei ehangu i gydnabod y pwyslais clir ar dai fforddiadwy a thai i'r henoed.<br><br>Os yw I) yn cael ei gynnwys, mae angen diffinio'r term 'cynaliadwy' yn y Rhestr Termau, neu mae hyn yn alwad am Drefoli. Byddem yn awgrymu i chi ddileu 'cyfarwyddo datblygiad' |
| **Angela Lebrovic** | Cytuno gyda'r Amcanion Drafft. Ni chynigir newidiadau. |
| **Cyngor Cymuned Mathri** | Cytuno gyda'r Amcanion Drafft. Ni chynigir newidiadau. |
| **Casgliadau:** | |

**Addasu Amcan J i adlewyrchu sylwadau CNC ar wahanu'r tirlun oddi wrth yr amgylchedd ac ehangu'r cyfeiriad at yr amgylchedd i gynnwys bioamrywiaeth a chynefinoedd. Rydym yn nodi'r sylwadau ynghylch yr angen i gefnogi addysg, ond rydym yn ystyried bod hyn yn cael ei gynnwys yn y cyfeiriad at wella'r seilwaith yn Amcan I. Bydd diffiniad seilwaith gwyrdd yn egluro bod hyn yn cynnwys llwybrau seiclo a cherdded. Addasu Amcan B i adlewyrchu sylwadau'r Parc Cenedlaethol am y tirlun a'r treflun. Addasu Amcan D i adlewyrchu sylwadau'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a'r Parc Cenedlaethol, gan egluro pwysigrwydd cyfleusterau cymunedol fel ffordd o sicrhau y gall Cymunedau fod yn ddyfeisgar. Cadw Amcan E gan fod y cyfeiriadau eisoes yn cynnwys ynni gwyrdd, sy'n adlewyrchu'r datblygiad cynyddol sy'n debygol yn y maes hwn. D – ystod a chymysgedd o gartrefi gan gynnwys cartrefi fforddiadwy a rhai i'r henoed. Cyfeirir yn benodol at y rhain ym Mholisïau'r Cynllun. I – cyfeirio'r datblygiad i leoliadau cynaliadwy – mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, cyfeirio'r datblygiad oddi wrth ardaloedd â risg llifogydd. Bydd eglurhad pellach yn cael ei gynnwys yn y Cynllun.**